## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Trosglwyddo cyllideb ar gyfer datblygu cynllun Cartrefi Grŵp Bychan |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Elin Walker Jones |
| **Swyddog perthnasol:** | Aled Gibbard, Pennaeth Cynorthwyol Adnoddau, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14eg o Fai, 2024 |

### 1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 Gofynnir i'r Cabinet awdurdodi trosglwyddiad ariannol parhaol o £454,580 o gyllideb lleoliadau preswyl allsirol ar gyfer cyllido darpariaeth mewnol fel rhan o ddatblygu cynllun Cartrefi Grŵp Bychain.

### 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Mae gweithdrefnau ariannol y Cyngor yn caniatáu trosglwyddo arian rhwng penawdau yng nghyllideb adran. Mae angen caniatâd y Cabinet ar gyfer trosglwyddo swm uwch na £200,000.

2.2 Ar gyfer cofrestriad y cartref gyda CIW mae angen hysbysebu swyddi parhaol, ac i wneud hynny mae angen cyllid parhaol i'w gosod ar y strwythur. Noder na fydd gwariant yn llawn ar y gyllideb eleni gan fod arian grant o £255,000 wedi ei sicrhau drwy'r Gronfa Integredig Rhanbarthol.

### 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

#### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

3.1.2 Mae adran 75 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau llety digonol i ddiwallu anghenion eu poblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Mae adran 81 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod lleoliadau'n cael eu gwneud yn eu hardal eu hunain oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny. Mae Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau gynnig amrywiaeth o lety i ddiwallu anghenion gwahanol.

3.1.3 Mae Rhaglen Lywodraethu bresennol Llywodraeth Cymru 2022-2027 yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n disgrifio gweledigaeth newydd i

drawsnewid gwasanaethau plant. Mae'r weledigaeth yn cynnwys lleihau nifer y plant sy'n dod i ofal lle bo modd. Lle bydd angen lleoli plentyn mewn gofal, bydd angen iddo fod yn agos at ei deulu a'i gymuned. Mae datblygu'r cynllun hwn felly'n rhan allweddol fel rhan o raglen Y Cyngor o ddod o hyd i ffyrdd y gellir lletya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at adref, fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth.

3.1.4 Yn ogystal mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Maent wedi gwneud ymrwymiad i ail-gydbwyso'r farchnad fel nad yw'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn cael eu contractio allan i gwmnïau er elw ond yn parhau i fod gyda darparwyr sector cyhoeddus a dielw. Y bwriad yw cyflwyno sail statudol i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal er mwyn datblygu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac sy'n atebol yn lleol; sy'n gwella'r profiad gofal i bobl ifanc ac sy'n galluogi buddsoddiad pellach mewn Gwasanaethau o'r fath.

## 3.2 Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Mae datblygu darpariaeth preswyl ein hunain drwy'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychain yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28.

3.2.2 Mae ein Strategaeth Lleoli ar gyfer Plant Mewn Gofal yn cyfarch yr ystod o ddarpariaeth lleoliadau sydd ei angen arnom i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Mae rhaglen Maethu Cymru eisoes yn cael ei weithredu drwy'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol. Mae dros 80% o leoliadau maethu Gwynedd yn cael eu darparu trwy ein darpariaeth mewnol.

3.2.3 Nid oes ganddom darpariaeth preswyl ar gyfer plant mewn gofal ar hyn o bryd. Darperir yr holl leoliadau drwy ddarparwyr allanol, gyda 92% ohonynt gan ddarparwyr preifat (8% gan y trydydd sector).

3.2.4 Mae 76% o leoliadau preswyl cyfredol tu allan i Gwynedd (46% yn Gogledd Cymru a 30% tu allan i Gymru). Y nifer cyfartalog o leoliadau preswyl gan Gwynedd dros y flwyddyn diwethaf yw 20.

3.2.5 Mae'r galw am leoliadau preswyl yn genedlaethol yn uchel a nid yw'r cyflenwad presennol yn cyfarch y galw. O ganlyniad mae awdurdodau lleol bellach mewn sefyllfa lle ceir lleoliadau gofal sydd heb eu cofrestru. Dros y flwyddyn diwethaf mae Gwynedd wedi cael 4 trefniant o'r math hwn a mae tueddiad i'r trefniadau hyn fod yn ddrytach na lleoliad preswyl arferol.

3.2.6 Ar ddiwedd flwyddyn ariannol 2023-24, roedd gwariant ar leoliadau preswyl allsirol yn £6 miliwn, gyda gorwariant sylweddol uwchlaw'r gyllideb o £5.53 miliwn. Mae cost lleoliad unigol yn amrywio o ddarparwr i ddarparwr ac o ganlyniad mae cynllunio a rheoli'r gyllideb yn medru bod yn dasg anrhagweladwy. Yn ogystal mae cyllideb lleoliadau preswyl allsirol yn cynrychioli dros 50% o'r holl gyllideb ar gyfer lleoliadau plant mewn gofal.

3.2.7 Wrth ddatblygu'r cynllun hwn mae cyfle i arbed costau. Cost gyfartalog flynyddol gyfredol lleoliad preswyl yw £330,000. Wrth osod cyllideb o £454,580 yn unol a'r cais, mae arbediad blynyddol posibl fesul Cartref Grŵp Bach yn tua £215,000 gyda 2 blentyn mewn lleoliad.

### 3.3 Camau nesaf

3.3.1 Mae'r gwaith cefndirol o ddatblygu polisïau a gweithio tuag at cofrestriad y cartref gydag Arolygaeth Gofal Cymru (CIW) eisoes ar y gweill. Bwriedir cyflwyno'r cais cofrestru cyn diwedd mis Mehefin. Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet bydd hysbyseb ar gyfer swydd Rheolwr Cofrestredig yn cael ei ryddhau cyn gynted a phosib, ac yn dilyn hynny hysbysebion am weddill y staff cyn diwedd mis Mai.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

4.1.1 Roedd y maes lleoliadau all-sirol wedi gorwario £1.5 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24 oherwydd pwysau ar y gyllideb, gyda defnydd cynyddol diweddar o leoliadau heb eu cofrestru yn un o'r prif resymau am y gorwariant yma. Bydd datblygu ein darpariaeth ein hunain yn cynorthwyo i leihau costau presennol y Cyngor ar y maes yma a felly rwyf yn gefnogol i'r penderfyniad a geisir.

### 4.2 Swyddog Monitro

4.2.1 Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.